# Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2014-15

## Y GRWP TRAWSBLEIDIOL AR GLEFYD SELIAG A DERMITIS HERPETIFORMIS

Cadeirydd: Aled Roberts AC
Ysgrifennydd: Jackie Radford

28 Hydref 2015

# 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

## Cadeirydd:
Aled Roberts Ac

## Ysgrifennydd:
Jackie Radford - Swyddfa Aled Roberts

## Aelodau:
Jeff Cuthbert AC – (Labelu a bwyta allan)
Llyr Gruffydd AC– (Prisiau bwyd heb glwten)
Mike Hedges AC – (Gwarant a phresgripsiwn bwyd heb glwten)
Mark Isherwood AC – (Ymchwil)
Rhun Ap Iorwerth AC – (Diagnosis ac ôl-ofal)

Carole Carpenter – Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Clwyd
Dr Dai Lloyd – Llywodraethwr, Coeliac UK
Dr Geraint Preest – Golygydd Gofal Sylfaenol y BMJ – Archwilio.
Graham Phillips- Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Abertawe
Henry Wilkins – Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Caerfyrddin
Dr Huw Jenkins - Gastroenterolegydd Pediatrig Ymgynghorol, Prifysgol ac Ysbyty Cymru,
Jean Dowding- Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Caerdydd
Jill Swift – Gastroenterolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Llandochau, Caerdydd
Dr Lindsay Morgan – Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Abertawe
Tristan Humphreys – Arweinydd cangen Cymru o Coeliac UK

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf.

**Cyfarfod 1.**

**Dyddiad:** 4 Tachwedd 2015

**Yn bresennol:** Aled Roberts AC; Jackie Radford; Henry Wilkins (cynrychiolydd grŵp Caerfyrddin); Lindsay Morgan (cynrychiolydd grŵp Abertawe); Jeff Cuthbert AC; Mike Hedges AC; Carol Carpenter (cynrychiolydd grŵp Clwyd); Jead Dowding (cynrychiolydd grŵp Caerdydd); Lisa Bainbridge (Coeliac UK); Sarah Sleet (Coeliac UK); Rhun ap Iorwerth AC; Dr. Geraint Preest; Graham Philips (cynrychiolydd grŵp Abertawe).

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y fenter Gwarant dim Glwten-** rhoddodd Prif Weithredwr Coeliac UK, Sarah Sleet, wybodaeth am y fenter Gwarant dim Glwten. Gwnaed llawer o gynnydd, ond bydd Coeliac UK yn parhau i adolygu'r ymgyrch. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr her o annog rhagor o siopau i fod yn rhan o'r ymgyrch.
  Camau i'w cymryd: Cytunodd yr Aelodau Cynulliad a oedd yn bresennol i ystyried cyflwyno datganiad o farn ar y cyd i annog siopau llai i werthu rhagor o nwyddau heb glwten.

- **Gorfodi a labelu-** cafwyd trafodaeth ynghylch labeli Gwarant dim Glwten yng Nghymru a chyfeiriwyd at achrediad Coeliac UK ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth UE a ddaw i rym ar 14 Rhagfyr 2014.

Camau i'w cymryd: Cytunwyd i anfon llythyr at y Byrddau Iechyd Lleol i holi sut y maent yn mynd ati i restru alergenau mewn ysbytai a sut y byddant yn addasu i'r newidiadau ar ôl mis Rhagfyr 2014.

- **Darpariaeth well mewn ysgolion –** Cafwyd trafodaeth ynghylch y ddarpariaeth mewn ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant a chyfrifoldeb. Trafodwyd safoni'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ysgolion ac ysbytai a'r ymchwiliad a gynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad i Arlwyo mewn Ysbytai yn dilyn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriwyd hefyd y cyfleoedd a gaiff eu creu yn sgil y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) arfaethedig. Camau i'w cymryd: Coeliac UK i adolygu'r cynigion ar gyfer gwelliannau posibl a chynhyrchu pecyn i ysgolion Cymru yn benodol.

- **Ymgyrch Diagnosis**- Tynnodd Coeliac UK sylw at yr ymgyrch arfaethedig i ennyn diddordeb y cyhoedd mewn pecyn hunanasesu clefyd seliag yn seiliedig ar ganllawiau NICE ar adnabod ac asesu. Camau i'w cymryd: AR/JR i holi'r Gweinidog neu Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ynghylch defnyddio Infomatica ym meddygfeydd Cymru.

- **Meysydd cyfrifoldeb-** Cytunodd Aelodau'r Cynulliad i ysgwyddo meysydd cyfrifoldeb penodol a chaiff hyn ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

**-----**

**<u>Cyfarfod 2.</u>**

**Dyddiad y cyfarfod**: 24 Chwefror 2015

**Yn bresennol:** Aled Roberts (Cadeirydd); Jackie Radford (Ysgrifennydd); Jeff Cuthbert AC; Dr. Geraint Preest (Golygydd Clinigol Meddygon Teulu – y BMJ - Archwilio); Dr. Jill Swift (Gastroenterolegydd – Caerdydd a'r Fro); Lindsey Dr Morgan (cynrychiolydd grŵp Abertawe); Dr Dai Lloyd (cynrychiolydd grŵp Abertawe); Norma McGough (Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgyrchoedd-Coeliac UK); Lisa Bainbridge (Rheolwr Ymgyrchoedd -Coeliac UK); Tristan Humphreys (Arweinydd cangen Cymru

o Coeliac UK); Jean Dowding (cynrychiolydd grŵp Caerdydd); Graham Phillips (cynrychiolydd grŵp Abertawe).

**Crynodeb o’r materion a drafodwyd:**

- **Meysydd cyfrifoldeb-** Cadarnhaodd y grŵp feysydd cyfrifoldeb pob Aelod Cynulliad yn y grŵp.
- **Llythyr at y Byrddau Iechyd Lleol-** Cytunwyd ar destun y llythyr i’w anfon at y Byrddau Iechyd Lleol.
  Camau i’w cymryd: Llythyr gan y Cadeirydd at bob Bwrdd Iechyd Lleol.
- **Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu –** Gallai’r Bil Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) newydd gyfeirio at hyfforddiant i ddarparu bwydydd heb glwten, a chytunwyd y dylid archwilio’r Bil i weld beth sydd wedi'i gynnwys ynddo.
  Camau i’w cymryd: Jackie Radford i archwilio’r Bil Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) i weld a yw’n cyfeirio at faterion yn ymwneud â chlefyd seliag a darparu bwydydd heb glwten.
- **Papur trafod y Llwybr-** Cafwyd trafodaeth ar y papur a gyflwynwyd gan ganolbwyntio ar y gwersi posibl i’w dysgu o’r cynllun arbrofol a gynhaliwyd yn yr Alban i roi bwydydd heb glwten ar bresgripsiwn.
  Camau i’w cymryd: Coeliac UK a Jackie Radford i ddrafftio llythyr at y Gweinidog Iechyd yn holi am roi bwydydd heb glwten ar bresgripsiwn yng Nghymru.
- **Meddalwedd archwilio’r BMJ –** Cafwyd cyflwyniad ar feddalwedd archwilio newydd roedd y BMJ yn ei datblygu i helpu meddygon teulu benderfynu a oedd claf yn dioddef o glefyd seliag ai peidio a’r posibilrwydd o ehangu’r defnydd o’r feddalwedd.
  Camau i’w cymryd: Dr Preest i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf ar y trefniadau angenrheidiol i ehangu’r defnydd o’r feddalwedd yn ddiogel.
- **Ymgyrch diagnosis –** rhoddodd Coeliac UK y wybodaeth ddiweddaraf am lansio’r ymgyrch newydd a'r penderfyniad i gynnal digwyddiad lansio yn y Senedd ar 12.05.15.
  Camau i’w cymryd: Tristan Humphreys i gydweithio ag Aled Roberts i drefnu’r digwyddiad lansio yn y Cynulliad.

---

**Cyfarfod 3.**

**Dyddiad y cyfarfod**: 12 Mai 2015

**Yn bresennol:** Aled Roberts AC (Cadeirydd); Jackie Radford (Ysgrifennydd); Jean Dowding (cynrychiolydd grŵp Caerdydd); Tristan Humphreys (arweinydd cangen Cymru o Coeliac UK); Norma McGough (Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgyrchoedd Coeliac UK); Geraint Preest (Golygydd Clinigol Meddygon Teulu – y BMJ - Archwilio); Dr. Jill Swift (Gastroenterolegydd – Caerdydd a'r Fro); Ajay Kenth (Rheolwr Datblygu Cwmseriaid Newydd - y BMJ; Henry Wilkins (cynrychiolydd grŵp Sir Gaerfyrddin); Bronwen Wilkins (cynrychiolydd grŵp Sir Gaerfyrddin); Lindsey Dr Morgan (cynrychiolydd grŵp Abertawe); Rhun ap Iorwerth AC; Graham Phillips (cynrychiolydd grŵp Abertawe); Mike Hedges AC; Jeff Cuthbert AC; Bil Hyde (cynrychiolydd grŵp Sir Gaerfyrddin); Kathy Hyde (cynrychiolydd grŵp Caerfyrddin).

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Bil Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru)**- cafwyd adroddiad gan Jackie Radford ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) a'i effeithiau posibl ar y rhai sydd â chlefyd seliag.
  Camau i'w cymryd: Jackie Radford i rannu casgliadau'r Gwasanaeth Ymchwil gyda Tristan Humphreys a chysylltu ag ef i benderfynu a oes angen archwilio'r Bil ymhellach
- **Llythyrau at y Byrddau Iechyd Lleol**
  Roedd dau Fwrdd Iechyd Lleol wedi ymateb i lythyr cynharach y Cadeirydd ynghylch gweithdrefnau'n ymwneud ag alergenau.
  Camau i'w cymryd: Jackie Radford i anfon ymatebion y Byrddau Iechyd Lleol at Tristan Humphreys i gael cyngor ychwanegol.
- **Y wybodaeth ddiweddaraf am feddalwedd y BMJ –** Cyflwynodd Ajay Kenth o'r BMJ y feddalwedd gan esbonio'r camau nesaf yn y broses o ehangu'r defnydd ohoni.

Camau i’w cymryd: Dr Jill Swift i wneud ymholiadau ar ran y grŵp a gwahodd Dr Chris Jones neu rywun tebyg i drafod effeithiau posibl y feddalwedd ar ofal eilaidd.

- **Y wybodaeth ddiweddaraf am lansio ymgyrch 'Ai clefyd seliag sydd arna’ i ? '-** Cafwyd adroddiad gan Tristan Humphreys ar y digwyddiad lansio a soniodd am y cynlluniau i gynnal digwyddiad yng nghanol dinas Caerdydd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Cam i’w gymryd: Tristan Humphreys i gysylltu â Swyddfa Rhun Ap Iorwerth i sicrhau brandio dwyieithog yn y digwyddiad.

**Cyfarfod 4.**

**Dyddiad y cyfarfod**: 15 Hydref 2015

**Yn bresennol:** Aled Roberts AC (Cadeirydd); Jackie Radford (Ysgrifennydd); Tristan Humphreys (Arweinydd cangen Cymru o Coeliac UK); Norma McGough (Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgyrchoedd Coeliac UK); Henry Wilkins (cynrychiolydd grŵp Sir Gaerfyrddin); Bronwen Wilkins (cynrychiolydd grŵp Sir Gaerfyrddin); Carol Carpenter (cynrychiolydd grŵp Clwyd); Heather Stephen (cynrychiolydd grŵp Clwyd).

**Crynodeb o’r materion a drafodwyd:**

- **Cyfarfod cyffredinol blynyddol -** etholwyd swyddogion yn unol â rheolau'r grwpiau trawsbleidiol.
- **Cyfarfod rhwng yr Is-bwyllgor a Dr John Green-** cafwyd adroddiad ar y cyfarfod rhwng yr is-bwyllgor a Dr John Green ynghylch gwasanaethau gastroenteroleg yng Nghymru.
  Camau i’w cymryd: Jackie Radford i wahodd y Gweinidog Iechyd i gyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol i drafod y materion a godwyd
- **Bwydydd heb glwten ar bresgripsiwn -** Cyflwynodd Norma McGough a Tristan Humphreys bapur ar fwydydd heb glwten ar bresgripsiwn yng Nghymru.
  Camau i’w cymryd: Tristan Humphreys i adrodd yn ôl ar oblygiadau

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) o safbwynt gwasanaethau fferyllol a rhannu casgliadau adolygiad yr Alban o'r Gwasanaeth Bwyd heb Glwten â'r grŵp.

- **Meddalwedd y BMJ -** dywedodd Tristan Humphreys wrth y grŵp fod y feddalwedd yn barod i'w lansio yn ystod y misoedd nesaf yn dilyn proses ymgysylltu â meddygon teulu ar hyd a lled y wlad.
- **Ymgyrch diagnosis -** cafwyd adroddiad gan Tristan Humphreys ar ffigurau diweddaraf yr ymgyrch gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- **Canllawiau i ysgolion –** mae canllawiau Cymru gyfan ar gyfer 'mynediad i addysg a chymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol' yn cael eu diweddaru ddiwedd y flwyddyn.
  Camau i'w cymryd: Tristan Humphreys i gysylltu â'r grŵp ynghylch dyddiadau'r ymgynghoriad.
- **Adroddiad etifeddiaeth-** Cytunwyd y dylai'r grŵp ddechrau gweithio ar ei adroddiad etifeddiaeth i sicrhau y gellid adeiladu ar waith y grŵp ar ôl yr etholiad.

# 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Coeliac UK.**
3rd Floor,
Apollo House,
Desborough Road,
High Wycombe.
Buckinghamshire.
HP11 2QW

**JAG**.
JAG Central Office
Care Quality Improvement Department
Royal College of Physicians
11 St Andrews Place
Regent's Park
London
NW1 4LE

**BMJ**
BMA House
Tavistock Square
London WC1H 9JR
United Kingdom

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

28 Hydref 2015

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis

**Cadeirydd:** Aled Roberts AC

**Ysgrifennydd:** Jackie Radford - Swyddfa Aled Roberts AC

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau.** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, fel lletygarwch.**<br><br>Talodd Coelaic UK am yr holl luniaeth. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 12.05.15 | Lansio ymgyrch 'Ai clefyd seliag sydd arna' i? yn y Cynulliad | £172.50 |
| | **Cyfanswm** | **£172.50** |